Talentau Gobaith

# Gweithgaredd Ieuenctid

## SESIWN IEUENCTID




Cyswllt i'r fideo Bible Project: **yma**

(neu ewch at: "The Main Message of the Book of Genesis • Part 1' ar Youtube)

**Themâu'r Sesiwn:**

- Fe fyddwn ni yn ystyried themâu mawr effaith pechod ac anghyfiawnder ar **ecosystemau a phobl** ar draws y byd, yn ogystal â'r **gobaith** mae Duw yn ei roi.
- Fe fyddwn ni yn ystyried y themâu hyn yng nghyd-destun Newid Hinsawdd a'r apêl **'Talentau Gobaith'** yn Simbabwe

**Defosiwn Beibl**

Gwyliwch y fideo 'The Bible Project: Genesis'

Wedyn, gofyn i'r grŵp ddarganfod a darllen yr adnodau hyn yn uchel (gellir gwneud hyn fel ras!):

- Genesis 1: 26-31 , Salm 65:9-10
- Genesis 3:1-19 , Jeremia 23:10

Ystyried fel grŵp sut y gwelwn gariad Duw tuag at y byd yn y fideo a'r adnodau yma, a sut greodd E'r byd yn berffaith. Gwelwn hefyd sut mae dynoliaeth wedi dewis pechod ac anghyfiawder yn aml, ac mae hyn wedi effeithio ar ein holl fyd: 'y tir' a'r ecosystemau, yn ogystal â phobl.

Gofyn i'r grŵp ysgrifennu / enwi rhai o'r anghyfiawnderau welwn yn y byd, a sut y gwelwn eu heffeithiau ar ecosystemau ar draws y byd, a sut mae hyn yn ei dro yn effeithio ar bobl a chymunedau.

## TALENTAU GOBAITH

**Powerpoint** 'Talentau Gobaith'

Trafod sut mae Newid Hinsawdd wedi effeithio yn enbyd ar gymunedau yn Simbabwe (gweler sleid 1-4, defnyddir hefyd Tudalen Wybodaeth yr apêl am fwy)

Gofyn i'r grŵp ddarganfod a darllen yr adnodau canlynol:

- Eseia 43:18-19
- Eseia 58:6-9

Ystyried: Er mor anodd yw'r problemau yn Simbabwe ac yn y byd, mae gennym Dduw sydd yn addo adfer a delio ag effeithiau pechod ac anghyfiawnder, a'u heffaith ar y Cread. Mae Duw yn ein galw ni i'w ddilyn ac ymuno ag Ef yn Ei waith iachâu. Mae'r adnodau hyn yn dangos mai ond gyda'i help a'i nerth E allen ni wneud hyn!




Tudalen yr apêl ac adnodd PPT i'w darganfod: **yma**

(neu ewch at 'Apeliadau' > 'Talentau Gobaith' ar wefan ubc.cymru)

Gofyn i'r grŵp ystyried ffyrdd y gallen nhw ymateb yn bersonol
(e.e gofyn am faddeuant Duw am sut rydyn ni wedi partneru gyda phechod / anghyfiawnder, gweithredu i leihau ein heffaith ni ar yr amgylchedd, gweddïo dros lefydd fel Simbabwe, cefnogi grwpiau sydd yn cymryd cariad a chymorth Duw i lefydd a effeithiwyd gan Newid Hinsawdd)

Ystyried sut mae Cymorth Cristnogol yn ymateb ac yn ymuno â galwad Duw yn Eseia 58:7
(maen nhw yn arfogi'r rhai sydd yn wynebu newyn gyda gwybodaeth a sgiliau sut i dyfu cnydau yn fwy effeithiol yn wyneb sychder a newidiadau hinsoddol)

Cyflwyno Prosiect BRACT a straeon yr apêl
(gweler sleid 5-12, yn ogystal â'r Dudalen Wybodaeth am y straeon sydd yn cyd-fynd â'r lluniau).

Talentau Gobaith

# Gweithgaredd Ieuenctid

## SYNIAD GÊM

Chwarae'r **'gêm rafft'** (cyfarwyddiadau ar-lein yma). Gêm yw hwn sy'n ein helpu i ystyried sut beth fyddai profi tywydd eithafol fel llifogydd (un o effeithiau NH yn Simbabwe).

Gofyn i'r grŵp **ddychmygu** heriau byw yng nghanol newyn. Problem i'r gwrthwyneb i lifogi. Ystyriwch yr effaith ar gnydau a bywoliaeth mewn gwledydd fel Simbabwe.

## SYNIADAU CODI ARIAN

Ystyriwch ffyrdd y gallwch chi wneud gwahaniaeth fel grŵp, trwy godi arian ar gyfer apêl Talentau Gobaith...

Cynhaliwch **'noson wledd'** Simbabwe


- Dewiswch 1-2 saig (gweler syniadau)
- Rhannwch swyddi rhwng unigolion y grŵp (e.e dod â chynhwysion, coginio, gosod i fyny, gweini, clirio) [dibynnol ar asesiadau risg]
- Meddyliwch am ddyddiad / lleoliad
- Creu gwahoddiadau
- Paratoi cyflwyniad Talentau Gobaith yn barod ar gyfer y noswaith
- Cynnal fel digwyddiad 'pay-as-you-feel'
- Coginiwch, bwytewch, mwynhewch!

## RYSEITIAU O SIMBABWE

**Mabhonzo Emombe**

Ryseit yma (gellir gwneud fersiwn llysieuol â ffa)





**Nhopi**

Ryseit yma

**Sadza (corn)**

Ryseit yma



Gwnewch **'ymbryd noddedig'** ar y cyd


- Bwytewch fwyd syml am 24-48 awr (reis, ffa, halen yn unig)
- Gwnewch ymbryd rhag cyfryngau cymdeithasol am 24-48 awr

Gwnewch **'sialens garddio'**

- Cliriwch erddi / plannu / chwynnu
- Gofyn am roddion at y gwaith!

LINC TUDALEN CODI ARIAN: YMA

## ADDOLI



- Treuliwch amser mewn gweddi
- Ysgrifennwch **feddyliau / deimladau** mewn ymateb i'r sefyllfa yn Simbabwe neu themâu ehangach
- Gwahoddwch **i Dduw siarad** i'r pethau hynny
- Gwrandewch ar ganeuon addoli tra'n gweddïo / myfyrio / ysgrifennu ymatebion.
- Gorffen gydag amser o weddi mewn grŵp, dros Simbabwe a gwaith CC a BRACT.

## CANEUON (+cyswllt wê)

'Beddau yn Erddi' gan Elevation Music (Cymraeg, yma). Cân sydd yn pwyntio at y **gobaith** mae Duw yn ei roi i ni, a sut mae hyd yn oed 'beddi' (neu lefydd sych a di-fywyd) yn gallu troi yn 'erddi'




'The Cry' (Saesneg, yma) gan Tab Worship. Cân sydd yn pwyntio at Dduw fel yr unig Un sydd yn gallu **iachâu** pobl / tiroedd. Gellir defnyddio fel **gweddi** ar gyfer Simbabwe.